# PWYLLGOR COFRESTRU A THRWYDDEDU

**(Committee Room 1/2 - Port Talbot Civic Centre)**

| | |
|---|---|
| **Members Present:** | **Dydd Llun, 28 Hydref 2019** |
| **Cadeirydd:** | **Councillor S.Paddison** |
| **Is-gadeiydd:** | **Councillor** |
| **Cynghorwyr**: | A.P.H.Davies, C.Edwards, S.E.Freeguard, C.James, C.J.Jones, R.Mizen, S.M.Penry a/ac D.M.Peters |
| **Swyddogion yn bresebbol:** | Neil Chapple, Gavin White and Nicola Headon |

---

## 1. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Medi, 2019.

## 2. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

**PENDERFYNWYD:** Gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 12 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

## 3. TRWYDDED CERBYD HACKNEY A GYRRWR LLOGI PREIFAT- ACHOS 1

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat, fel y nodwyd yn yr adroddiad preifat a gylchredwyd.

Roedd yr ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:** Gwrthod y cais am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

4. **TRWYDDED CERBYD HACKNEY A GYRRWR LLOGI PREIFAT- ACHOS 2**

Derbyniodd aelodau'r diweddaraf am ddiddymu trwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat, fel y nodwyd yn yr adroddiad preifat a gylchredwyd.

**PENDERFYNWYD:** Dylid nodi'r adroddiad.

5. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd bod angen ymdrin â'r mater a gynhwysir yng Nghofnod Rhif 6 isod ar unwaith, cytunodd y Cadeirydd y gellid ei drafod yng nghyfarfod heddiw fel eitem frys yn unol ag Adran 100A(4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**Rheswm**

Oherwydd yr angen dybryd i benderfynu a yw'r gyrrwr yn dal i fod yn berson addas a chymwys i gael trwydded.

6. **TRWYDDED CERBYD HACKNEY A GYRRWR LLOGI PREIFAT- ACHOS 3**

Gofynnwyd i aelodau ystyried a yw'r Gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat yn dal i fod yn berson addas a chymwys i gael trwydded, fel y nodwyd yn yr adroddiad a gylchredwyd.

Roedd yr ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:** Atal y Gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat am gyfnod o bythefnos a chyflwyno rhybudd i'r Rheolwr Trwyddedu am ganlyniadau tebygol unrhyw weithredoedd annoeth yn y dyfodol.

**CADEIRYDD**